Department for Education

# Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig yn 2015 -

## Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ac Ymateb y Llywodraeth

13 Medi 2013

# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Diwygiadau i'r Gwasanaeth Cyhoeddus 3

Pam y Gwnaeth yr Adran Ymgynghori 3

Y Broses Ymgynghori 4

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth 5

Adran 1: Sut y caiff pensiwn cyfartalog gyrfa gyfan ei gyfrifo 7

Adran 2: Grantiau marwolaeth a buddion dibynyddion 12

Adran 3: Buddion salwch 14

Adran 5: Hyblygrwydd pensiwn 21

Adran 6: Ymddiriedolaethau Academi gan gynnwys Ymddiriedolaethau Aml-Academi24

Adran 7: Taliadau ymddeoliad cyn pryd a thaliadau digolledu eraill 25

Adran 9: Cwestiynau Ychwanegol o'r Ymgynghoriad 30

Y camau nesaf 33

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad 34

# Cyflwyniad

## Diwygiadau i'r Gwasanaeth Cyhoeddus

1. Yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (y Comisiwn), a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Hutton o Furness, mae pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy yn yr hirdymor, ac yn decach i aelodau a'r trethdalwr. Mae pobl yn byw yn llawer hwy, 10 mlynedd yn hwy nag yr oeddent yn y 1970au ar gyfartaledd. Golyga hyn fod cost darparu pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys pensiwn athrawon, wedi cynyddu traean yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Er gwaethaf diwygiadau diweddar, mae'r rhan fwyaf o'r costau hynny yn cael eu talu gan drethdalwyr. Ar 9 Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg (yr Adran) Gytundeb Terfynol Arfaethedig (PFA) a roddodd amlinelliad o Gynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig (TPS). Ymhlith darpariaethau allweddol y cynllun diwygiedig mae'r canlynol: pensiwn yn seiliedig ar enillion cyfartalog gyrfa gyfan; cyfradd gronni o 1/57fed; ac Oedran Pensiwn Arferol (NPA) sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gydag opsiynau i alluogi aelodau'r cynllun i ymddeol yn gynharach neu'n ddiweddarach na'u NPA. Ceir y manylion llawn yn:

   http://www.education.gov.uk/schools/careers/payandpensions/b00204965/proposed-teacher-pension-scheme-reforms

2. Bydd y diwygiadau i'r TPS yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn un o'r rhai gorau sydd ar gael – gyda lefelau gwarantedig o fuddion a diogelwch rhag chwyddiant. Bydd yn rhoi pensiwn cynaliadwy o ansawdd uchel i aelodau sy'n adlewyrchu eu gwasanaeth gwerthfawr i fyd addysg, a bydd yn helpu cyflogwyr i ddenu a chadw athrawon rhagorol.

## Pam y Gwnaeth yr Adran Ymgynghori

3. Ar 7 Mai 2013 cyhoeddodd yr Adran y ddogfen ymgynghori, Ymgynghoriad – Cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig yn 2015. Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori gynigion yr Adran o ran rhoi'r PFA ar gyfer y TPS diwygiedig ar waith (h.y. sut y bwriedir i'r trefniadau newydd weithio yn ymarferol) a cheisiodd farn pobl ar y cynigion.

4. Nododd y cynigion y canlynol: beth fydd yr effaith ar y rhai sy'n ymuno â'r cynllun ar, neu ar ôl, 1 Ebrill 2015; a'r trefniadau pontio ar gyfer aelodau presennol y cynllun, gan gynnwys aelodau'r cynllun sydd wedi'u diogelu. Galluogodd yr ymgynghoriad aelodau, cyflogwyr a phartïon eraill â diddordeb i nodi unrhyw faterion a oedd yn gysylltiedig â rhoi'r cynllun diwygiedig ar waith, gan gynnwys unrhyw beth a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb a beichiau ychwanegol, a mynegi barn arnynt.

5. Roedd yr ymgynghoriad yn gam allweddol yn y broses o ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus a ddechreuodd gydag ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oedd yn ymwneud â manylion y PFA, a oedd wedi'u penderfynu eisoes yn dilyn trafodaethau ac ymgynghoriadau manwl ar wahân.

## Y Broses Ymgynghori

6. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Mai 2013 a 28 Mehefin 2013. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan yr Adran a gellid dychwelyd ymatebion i'r Adran Addysg drwy e-bost neu drwy'r post.

7. Ar ôl cael eu cyhoeddi, anfonwyd manylion yr ymgynghoriad at bob grŵp rhanddeiliaid a chorff cynrychioliadol allweddol, gan gynnwys undebau athrawon a chymdeithasau cyflogwyr. Sicrhaodd yr Adran hefyd fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi mewn man amlwg ar wefan gweinyddwr y cynllun (Pensiynau Athrawon), a'i bod yn hawdd i aelodau a chyflogwyr gael mynediad iddi drwy glicio ar ddolen. At hynny, mae'r Adran wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ag undebau a chyflogwr a chyfarfod â hwy er mwyn trafod y cynigion, cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth

8. Cafwyd cyfanswm o 73 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan athrawon a phenaethiaid, undebau athrawon, ysgolion, colegau a sefydliadau addysg eraill, grwpiau cynrychioliadol cyflogwyr a sefydliad ffydd. Cafwyd yr unig ymateb a oedd yn perthyn i'r categori 'arall' gan gyflenwr meddalwedd gweinyddu pensiynau.

| Math o Ymatebydd | Ymatebion | |
|---|---|---|
| Pennaeth/Athro: | 34 | 47% |
| Undeb Llafur: | 12 | 16% |
| Ysgol: | 11 | 15% |
| Cymdeithas Cyflogwyr | 3 | 4% |
| Coleg: | 4 | 5% |
| Awdurdodau Lleol a Chynghorau: | 5 | 7% |
| Prifysgol | 2 | 3% |
| Cymdeithas Ffydd Addysgol | 1 | 1% |
| Arall | 1 | 1% |
| **Cyfanswm:** | **73** | **100%** |

9. Mae'r Adran wedi ystyried pob ymateb a nodir isod grynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd o dan bob adran a chwestiwn o'r ymgynghoriad, ynghyd â safbwynt terfynol yr Adran.

10. Cododd cryn nifer o ymatebwyr faterion ynghylch p'un a ddylid diwygio cynlluniau'r sector cyhoeddus, a dyluniad cyffredinol y TPS diwygiedig, fel y'i nodir yn y cytundeb terfynol arfaethedig ar gyfer y TPS. Roedd y rheiny yn cynnwys honiadau nad oes angen newid strwythur presennol y TPS; bod y TPS fel mae'n sefyll ar hyn o bryd yn fforddiadwy ac yn deg; ac nad yw'n briodol newid yr oedran pensiwn arferol ar gyfer athrawon i oedran pensiwn y wladwriaeth o ystyried gofynion corfforol a meddyliol addysgu.

11. Mae'r Adran yn cydnabod bod cryn dipyn o wrthwynebiad i'r cynigion cyffredinol ar gyfer diwygio'r TPS. Fodd bynnag, mae'r Adran o'r farn bod yr Arglwydd Hutton wedi cyflwyno'r achos dros newid yn glir a noda fod y mater wedi bod yn destun cryn drafod a negodi. Yn wir, ystyriwyd pob un o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn fel rhan o'r trafodaethau hynny, ac ym mis Mawrth 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth ei safbwynt terfynol ar ddiwygio'r TPS. Nododd y PFA a gyhoeddwyd bryd hynny strwythur y TPS diwygiedig, trefniadau ar gyfer diogelu'r rhai sy'n agosáu at oedran ymddeol yn ogystal â'r buddion y mae pob aelod wedi'u cronni yn y cynllun presennol.

12. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad hwn ar sut y bwriedir rhoi'r PFA ar waith. Ymdriniodd â'r cynigion manwl ynglŷn â sut y caiff y cynllun diwygiedig ei weithredu ynghyd â sut y bydd y trefniadau pontio, ar gyfer aelodau sy'n newid o'r cynllun presennol i'r cynllun newydd, yn gweithio. Er bod yr Adran yn cydnabod y sylwadau a wnaed yn gwrthwynebu'r diwygiadau cyffredinol, mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar adborth a gafwyd gan ymatebwyr ar gynigion yr Adran ar gyfer rhoi'r cynllun diwygiedig ar waith.

13. Mae'r Adran hefyd yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr o'r farn bod gormod o fanylion yn y ddogfen ymgynghori, neu fod y trefniadau ar gyfer y cynllun presennol a'r cynigion ar gyfer y cynllun diwygiedig yn anodd eu deall. Wrth lunio'r ymgynghoriad cydnabu'r Adran fod nifer fawr o newidiadau dan sylw, a bod angen esbonio pob un ohonynt er mwyn sicrhau bod athrawon a chyflogwyr, a'u cyrff cynrychioliadol, yn cael yr holl wybodaeth. Felly, ceisiodd esbonio pethau mor syml â phosibl tra'n parhau i gynnwys digon o fanylion er mwyn sicrhau y gallai rhanddeiliaid asesu'r holl newidiadau dan sylw a gwneud sylwadau arnynt.

14. Ceisiodd yr Adran sicrhau cydbwysedd rhesymol yn y ddogfen ymgynghori, gan ei hategu ag adnoddau eraill gyda'r nod o roi cymorth pellach i aelodau unigol er mwyn eu helpu i ddeall (e.e. y cyngor cynhwysfawr ar y trefniadau presennol ar wefan gweinyddwr y cynllun, a'r adnodd ar y we a ddarparwyd gyda'r ymgynghoriad a oedd yn fodd i aelodau unigol weld sut y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt). Serch hynny, mae'r Adran yn deall ac yn derbyn bod angen sicrhau cydbwysedd a rhoi cymorth effeithiol parhaus, sydd wedi'i dargedu er mwyn sicrhau y gall pob rhanddeiliad ddeall y newidiadau dan sylw yn llawn. Bydd yn sicrhau y rhoddir sylw priodol i gyfathrebu a meithrin dealltwriaeth ar bob cam o'r broses ddiwygio.

## Adran 1: Sut y caiff pensiwn cyfartalog gyrfa gyfan ei gyfrifo

15. Mae'r TPS yn cynnig amrywiaeth o fuddion i aelodau i'w cynnal pan fyddant wedi ymddeol, a mesurau diogelu er mwyn sicrhau y caiff y buddion hynny eu cyfrifo'n briodol ac yn deg. Bwriad y cynigion ynglŷn â sut y caiff pensiynau eu cyfrifo yn y cynlluniau diwygiedig yw cyflwyno trefniadau ar gyfer cynllun cyfartalog gyrfa gyfan sy'n briodol ac yn effeithiol, yn arbennig trefniadau:

- sydd mor syml a hawdd eu deall â phosibl;
- sy'n gweddu orau i'r modd y caiff y gweithlu addysg ei dalu a'i drefnu;
- sy'n cadw opsiynau, dulliau gweithredu a mesurau diogelu tebyg i'r hyn a geir yn y cynllun cyflog terfynol presennol (er enghraifft, ar gyfer cynnal gwerth buddion cyn ac ar ôl iddynt gael eu hawlio fel pensiwn, ar gyfer trosi rhan o bensiwn yn gyfandaliad dewisol, neu ar gyfer sicrhau bod y rhai sy'n sâl neu ar gyfnod mamolaeth yn parhau i gronni buddion mewn modd teg);
- sy'n gyson â'r cytundeb terfynol arfaethedig (er enghraifft, yn seiliedig ar gyfradd gronni o 1/57fed, sy'n darparu ar gyfer mynegrifo yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 1.6% tra bod yr aelod mewn gwasanaeth a CPI os nad yw mewn gwasanaeth).

16. O ystyried y nodau hynny, mae'r Adran yn cynnig, yn y TPS diwygiedig, y bydd pensiynau cyfartalog gyrfa gyfan yn cronni ar sail buddion ac y byddant yn cael eu mynegeio ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cynllun, a'u cynnwys yn y buddion a gronnwyd ym mlwyddyn ddiwethaf y cynllun. Hynny yw, bob blwyddyn bydd aelod yn bancio swm o bensiwn sy'n seiliedig ar ei enillion pensiynadwy a'r gyfradd gronni (1/57fed), a bydd yn cael ei fynegeio bob blwyddyn ar ôl hynny, er mwyn sicrhau bod iddo werth cyfredol. Er ei bod yn anochel bod hyn yn wahanol i'r sail ar gyfer cronni pensiynau cyflog terfynol (lle mae cyflog adeg ymddeol a nifer y blynyddoedd o wasanaeth yn pennu'r swm terfynol), dyma'r dull gweithredu sy'n gweddu orau i'r nodau ar gyfer y TPS – er enghraifft, bydd yn galluogi aelodau i weld yn glir sut mae eu pensiwn yn cronni ac yn cynyddu, ac mae'n gweddu'n dda i'r cynigion i roi hyblygrwydd ychwanegol er mwyn galluogi athrawon i gronni cynilion pensiwn ychwanegol.

17. Ymhlith yr elfennau allweddol yr ymdrinnir â hwy mae'r canlynol:

- sut y caiff pensiynau aelodau'r cynllun eu cyfrifo;
- sut y caiff buddion a'r pensiwn eu haddasu bob blwyddyn er mwyn cynnal eu gwerth (mynegrifo);
- sut y caiff pensiynau a'r broses fynegrifo eu cyfrifo pan fydd unigolion yn gadael ac yn hawlio eu buddion yn ystod blwyddyn ariannol;
- yr effaith a gaiff toriad mewn gwasanaeth ar fuddion a'r broses fynegrifo;
- sut y caiff enillion pensiynadwy eu pennu;

- pryd bydd modd hawlio buddion, h.y. ar ba oedran;

- cyfrifoldebau aelodau a chyflogwyr o ran gwirio datganiadau buddion blynyddol.

18. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau penodol canlynol ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cyfrifo buddion ac mae'n ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd yn eu cylch a chrynhoir y cynigion eu hunain isod:

| **C1 A yw'r trefniadau arfaethedig yn glir, ac, os nad ydynt, pa ganllawiau neu gymorth pellach a fyddai'n ddefnyddiol?**<br><br>Cafwyd 69 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 34 (50%) Ydyn | 25 (36%) Nac ydyn | 10 (14%) Ddim yn siŵr |

19. Nododd cryn nifer (bron 23%) o'r rhai a ymatebodd eu bod yn gwrthwynebu'r diwygiadau cyffredinol ac ymddengys mai dyna yw prif sail eu pryderon ynghylch y ffaith yr ymddengys fod y cynllun diwygiedig yn gymhleth; gan gynnwys pa mor wahanol ydyw i'r cynllun presennol. Nodir ymateb yr Adran i bryderon ynghylch yr achos dros ddiwygio'r cynllun yn y crynodeb uchod.

20. Nododd sylwadau eraill ynghylch y cynigion, gan y rhai a oedd yn pryderu ynghylch eglurder, fod aelodau unigol yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y bydd y mesurau diogelu pontio yn gymwys iddynt, neu sut y bydd buddion yn cronni o gymharu â'r cynllun presennol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at ba mor gymhleth yw'r trefniadau mynegeio ac maent yn awgrymu y dylid rhoi rhagor o enghreifftiau ynghyd â thabl er mwyn dangos yn fanylach sut y caiff pensiwn ei ailbrisio mewn amrywiaeth o achosion, gan gynnwys ar gyfer pobl sydd â mwy nag un swydd o dan y TPS. Hefyd, cafwyd cais am gyfrifiannell ar-lein i helpu aelodau i fodelu eu sefyllfa.

21. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at y rôl allweddol y bydd cyflogwyr yn ei chwarae o ran gweithredu a chynnal y trefniadau newydd ac, o ganlyniad, ei bod yn hanfodol y cânt eu cefnogi a'u hannog i gyflawni'r rôl honno yn effeithiol.

22. Serch hynny, nododd nifer o'r rhai a ddywedodd fod y trefniadau yn glir ei bod yn bwysig bod cyfathrebu clir yn parhau drwy gydol y broses ddiwygio.

## Ymateb y Llywodraeth

23. Mae'r Adran yn cydnabod y bydd y trefniadau ar gyfer cyfrifo buddion yn wahanol iawn a bod y trefniadau ar gyfer mynegrifo pensiynau yn anochel o gymhleth. Mae wedi ceisio cyflwyno trefniadau sy'n gweddu orau i anghenion y gweithlu addysgu, a threfniadau presennol, yn ogystal â sicrhau symlrwydd lle y bo'n bosibl. Mae'r Adran yn croesawu cynigion ynglŷn â sut y gellir gwella dealltwriaeth ac adeiladu arni a bydd yn cymryd camau i sicrhau y caiff y trefniadau newydd eu hesbonio mor glir ac effeithiol â phosibl a helpu aelodau, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i'w deall yn well.

| **C2 A oes unrhyw faterion eraill y mae angen i'r Adran eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid ystyried enillion preswyl fel rhan o gyflog pensiynadwy aelod o'r cynllun ai peidio?**<br><br>Cafwyd 54 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 26 (48%) Oes | 7 (13%) Nac oes | 21 (39%) Ddim yn siŵr |

24. Nododd bron hanner yr ymatebwyr fod materion eraill y dylai'r Adran eu hystyried a gwnaethant ddadlau y dylid parhau i ystyried enillion preswyl fel rhan o gyflog pensiynadwy. Ymhlith y ffactorau maent o'r farn bod angen i'r Adran edrych arnynt mae'r canlynol:

- byddai'r dileu'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn anos i recriwtio a chadw staff, yn enwedig ymhlith arweinwyr ysgol ac i ysgolion sy'n cynnig darpariaeth arbenigol nas darperir rywle arall;
- bod rhai ysgolion gwladol yn defnyddio'r cyfleuster hwn;
- nad oes risg sylweddol yn gysylltiedig â'r taliadau dan sylw o gofio'r rheolaethau sydd ar waith;
- bod athrawon yn talu treth ar y symiau dan sylw;
- byddai newid i'r cynllun diwygiedig yn rhoi aelodau presennol ac aelodau newydd o dan anfantais annheg.

25. Tueddai ymatebwyr eraill i beidio â chynnig barn gref na ddylid ystyried enillion preswyl mwyach a nododd llai na 13% eu bod o'r farn nad oedd unrhyw faterion eraill roedd angen i'r Adran eu hystyried.

### Ymateb y Llywodraeth

26. Cynigiodd yr Adran na ddylid ystyried enillion preswyl mwyach fel rhan o gyflog pensiynadwy. Deilliodd hyn o'r farn bod eu cynnwys yn peri risg i'r cynllun, ac yn gosod baich gweinyddol arno, pan mai prin yw'r athrawon yn y gwasanaeth cyhoeddus sy'n derbyn y fath daliadau mewn nwyddau.

27. Mae'r Adran wedi ystyried y cynrychioliadau a wnaed ac yn derbyn bod ffactorau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried y mater hwn. Yn benodol, mae'n derbyn bod y gallu i gynnwys enillion preswyl yn helpu i recriwtio a chadw staff mewn perthynas â rhai swyddi allweddol a bod y risgiau i gostau'r cynllun, ar y cyfan, yn fach (drwy'r terfyn ar faint y gellir ei ystyried a'r ffaith mai dim ond ychydig gannoedd o achosion cofnodedig sydd) ac yn cael eu rheoli'n dda. O ganlyniad, mae'r Adran wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w chynnig ac ystyried enillion preswyl fel rhan o gyflog pensiynadwy yn y cynllun diwygiedig, a pharhau i wneud hynny yn y cynllun presennol.

| **C3 A fydd y cynigion yn helpu cyflogwyr ac aelodau o'r cynllun i wneud mwy i sicrhau cywirdeb y data sy'n ymwneud â'r pensiwn a'r buddion?**<br><br>Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 12 (19%) Byddan | 32 (52%) Na fyddan | 18 (29%) Ddim yn siŵr |

28. Mae'r Adran o'r farn y bydd y trefniadau newydd arfaethedig yn ei gwneud yn haws i aelodau ddeall a monitro sut mae eu pensiwn yn cronni. Bob blwyddyn bydd yn amlwg pa enillion a gofnodwyd ac a ystyriwyd a dyna'r ffactor allweddol wrth nodi faint o bensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd cyflogwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r wybodaeth honno a bydd y ffaith bod data cyflog bob blwyddyn yn allweddol i gronni pensiwn yn eu helpu, er enghraifft, drwy sicrhau bod unrhyw wallau a phroblemau yn fwy tebygol o gael eu nodi tua'r adeg y maent yn digwydd, yn hytrach nag ar ddiwedd gyrfa aelod fel sy'n dueddol o ddigwydd yn y cynllun cyflog terfynol.

29. Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oeddent o'r farn y byddai'r cynigion yn helpu i wella cywirdeb data sy'n ymwneud â phensiynau a dywedodd 29% arall nad oeddent yn siŵr. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r ymatebwyr hynny a gyfeiriodd at unrhyw beth yn nhrefniadau'r cynllun arfaethedig sydd wedi peri iddynt ddod i'r casgliad na fyddai cywirdeb data yn gwella. Cyfeiriodd y rhai a wnaeth hynny at y ffaith bod y broses o gasglu data yn fwy cymhleth am fod dwy set o drefniadau ar waith ar yr un pryd.

30. Mae'r ffactorau allweddol yr ystyrir eu bod yn rhwystrau i wella data, mewn gwirionedd, naill ai'n ymwneud â gweinyddu neu bolisi addysg ehangach, fel a ganlyn:

- yr angen i roi mwy o gyngor a chymorth i aelodau, cyflogwyr a darparwyr cyflogresi;
- yr angen am fwy o gydweithredu rhwng gweinyddwr y cynllun, cyflogwyr a darparwyr cyflogresi;
- diffyg cymhelliant i gyflogwyr sicrhau bod data yn gywir, dim cosb os ydynt yn ei nodi'n anghywir;
- mae'r cynnydd yn nifer yr Academïau yn golygu bod mwy o gyflogwyr llai o faint nad ydynt wedi arfer â chyflwyno data;
- mae'r penderfyniad i ddileu graddfeydd cyflog yn golygu ei bod yn anos cyflwyno a gwirio data;
- rhaid i ddatganiadau buddion blynyddol fod yn glir ac yn gynhwysfawr.

## Ymateb y Llywodraeth

31. Mae'r Adran yn croesawu'r sylwadau a gafwyd ac yn derbyn y bydd cymhlethdodau yn gysylltiedig â dwy set o drefniadau sydd ar waith ar yr un pryd.

Fodd bynnag, mae'r Adran wedi ceisio cwtogi ar y cymhlethdodau hynny drwy sicrhau bod y trefniadau cyffredinol arfaethedig mor glir a syml â phosibl a bod y trefniadau newydd yn adlewyrchu'r trefniadau presennol cymaint â phosibl.

32. Mae'r Adran yn derbyn bod angen cyngor, canllawiau a chyfathrebu clir rhwng pob parti er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau data eu cyflawni'n llawn a gwella dealltwriaeth aelodau a chyflogwyr. At hynny, mae angen rhoi sylw priodol i anghenion newydd a newidiol rhanddeiliaid, defnyddio dulliau cyfathrebu allweddol (megis datganiadau buddion blynyddol) yn effeithiol ac addasu trefniadau gweinyddu yn briodol er mwyn ystyried newidiadau ehangach megis y rhai sy'n digwydd i gyflog athrawon. Mae'r Adran yn gweithio'n agos iawn gyda gweinyddwr y cynllun er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob un o'r ffactorau hyn. Yn wir, mae strategaeth gyfathrebu fanwl yn cael ei datblygu sydd, er enghraifft, yn ymdrin â phethau megis ymgysylltiad arfaethedig â darparwyr cyflogresi, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau a chyngor priodol ar gael i helpu pob rhanddeiliad i ddeall y trefniadau newydd.

## Adran 2: Grantiau marwolaeth a buddion dibynyddion

33. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn cynnwys amrywiaeth o fuddion ar ffurf yswiriant sy'n helpu aelodau i roi diogelwch ariannol i'w teuluoedd os byddant yn marw. Mae'r buddion sy'n daladwy yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis a yw'r aelod mewn gwasanaeth, allan o wasanaeth neu'n bensiynwr, ac a oes gan yr aelod ddigon o wasanaeth cymwys er mwyn darparu pensiynau. Gall y buddion gynnwys grant marwolaeth, pensiynau byrdymor a hirdymor. Os bydd aelod yn gymwys i gael buddion personol mae hefyd yn gymwys i ddarparu pensiynau hirdymor a byrdymor i'w ddibynyddion.

34. Nod cynigion yr ymgynghoriad yw cynnal yr holl fuddion o'r fath, ac ar lefel debyg, fel y'i darperir yn y cynllun presennol (h.y. gan gynrychioli'r un gyfran o fuddion yr aelod). Mae angen gwneud rhai newidiadau i'r system ar gyfer cyfrifo'r buddion, am fod buddion gofal yn cael eu cyfrifo ar sail wahanol, h.y. maent yn ymwneud â'r swm a enillir bob blwyddyn yn hytrach na nifer y blynyddoedd o wasanaeth a'r cyflog terfynol. Bydd y cynigion yn cyfrif am hynny ac yn cyflawni'r nod y bydd buddiolwyr aelodau'r TPS yn dal i allu manteisio ar yr un ystod a graddfa o fuddion.

35. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau ymgynghori canlynol am grantiau marwolaeth a buddion dibynnydd.

| **C4 A yw'r trefniadau arfaethedig yn glir ac, os nad ydynt, pa ganllawiau neu gymorth pellach fyddai'n ddefnyddiol?**<br><br>Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 35 (59%) Ydyn | 16 (27%) Nac ydyn | 8 (14%) Ddim yn siŵr |

36. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod y wybodaeth yn glir ac roedd 27% yn ystyried nad oedd y wybodaeth yn glir. Roedd tua 65% o'r rheiny yn athrawon cyfredol a nododd fod y rhannau hyn o'r cynllun yn llai cyfarwydd i'r rhan fwyaf o aelodau ac y dylid esbonio'r darpariaethau presennol ymhellach ac unrhyw wahaniaeth rhyngddynt a'r darpariaethau newydd.

## Ymateb y Llywodraeth

37. Mae'r Adran yn cydnabod yr ymatebion hyn ac yn derbyn bod yr elfennau o'r TPS sy'n ymwneud â grantiau marwolaeth a buddion dibynyddion yn gymhleth ac yn aml nas deellir yn llawn gan yr aelodau. Ceisiodd yr Adran nodi'r newidiadau yn glir yn y ddogfen ymgynghori ac esbonio'r gwahaniaeth rhyngddynt a'r darpariaethau presennol mewn modd addas? Fodd bynnag, mae'n derbyn y gall y maes hwn fod yn un anodd i ymwneud ag ef a bod angen ychwanegu at y cyngor a'r canllawiau a ddarperir er mwyn gwella dealltwriaeth aelodau a chyflogwyr ymhellach. Mae'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn wedi'i ymgorffori yn y cynllun cyfathrebu y mae'r Adran yn ei ddatblygu gyda gweinyddwr y cynllun a thrwy'r cynllun hwnnw ymdrinnir â'r mater hwn yn effeithiol.

| **C5 A ydych yn cytuno y dylai'r Adran ddiwygio'r trefniadau ar gyfer rhoi taliad ychwanegol ar gyfer pensiynau dibynyddion lle bydd aelod o'r cynllun yn marw mewn gwasanaeth i dargedu'n well y rhai sydd mewn mwyaf o angen, yn unol â'r trefniadau ymddeol salwch?**<br><br>Cafwyd 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 28 (50%) Ydyn | 17 (30%) Nac ydyn | 11 (20%) Ddim yn siŵr |

38. Cytunodd 50% o'r ymatebwyr â'r cynigion, gan nodi eu bod o'r farn ei bod yn briodol ac yn deg targedu buddion yn well at angen fel hyn.

39. Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynigion mynegwyd dwy brif farn, sef nad yw'n dilyn o reidrwydd y bydd y beichiau ariannol ar ddibynyddion iau yn fwy difrifol na'r beichiau ariannol ar ddibynyddion hŷn ac y bydd gan fuddiolwyr iau fwy o amser i adfer eu sefyllfa ariannol na buddiolwyr hŷn.

## Ymateb y Llywodraeth

40. Mae'r Adran yn croesawu'r ymatebion hyn ac yn cydnabod na fydd bob amser yn wir o reidrwydd fod gan fuddiolwyr aelodau iau fwy o anghenion na buddiolwyr aelodau hŷn. Fodd bynnag, mae'r Adran yn dal i fod yn argyhoeddedig mai'r cynnig i newid i system lle mae'r taliad ychwanegol yn seiliedig ar hanner y cyfnod sydd ar ôl tan yr oedran pensiwn arferol, yw'r un mwyaf priodol. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth i fuddiolwyr yr aelodau hynny sy'n marw'n ifanc neu ar ôl ychydig o wasanaeth, tra'n parhau i roi codiad rhesymol i'r buddiolwyr hynny y mae ganddynt fwy o wasanaeth. Yma mae'r Adran o'r farn bod athrawon iau yn llai tebygol o fod wedi paratoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath a'i bod yn fwy tebygol y caiff eu marwolaeth effaith ariannol sylweddol ar eu dibynyddion am y bydd yr aelod wedi cronni llai o fuddion o ganlyniad i wasanaeth byrrach. Yn y pen draw, mae'r Adran hefyd o'r farn bod y cynigion yn darparu sail decach ar gyfer pennu'r fath daliadau ychwanegol, lle mae dull gweithredu cyson ar gyfer pawb yn hytrach na'r trefniadau presennol sydd wedi'u gwyro o blaid hyd gwasanaeth.

## Adran 3: Buddion salwch

41. Mae'r cynigion ar gyfer cyfrifo buddion salwch a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar fwriad yr Adran i barhau i ddarparu buddion salwch fel yn y cynllun presennol.

42. Elfennau allweddol y cynigion hynny yw:

- bydd y cyfnod cymhwyso ar gyfer buddion salwch yn parhau i fod yn ddwy flynedd o wasanaeth cymwys;
- parhau â'r trefniadau salwch dwy haen sy'n cysylltu lefel y pensiwn a ddyfernir â difrifoldeb salwch neu anaf aelod o'r cynllun;
- bydd unrhyw daliad ychwanegol a wneir yn seiliedig ar hanner y gwasanaeth sy'n weddill y gallai aelod fod wedi'i gwblhau cyn cyrraedd yr NPA (sy'n cyfateb i'r SPA yn y cynllun diwygiedig);
- bydd grantiau salwch difrifol gwasanaeth byr yn parhau i fod ar gael i aelodau'r cynllun, lle mae ganddynt fwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd o wasanaeth, sy'n dioddef o salwch difrifol, (h.y. mae ganddynt ddisgwyliad oes o lai na blwyddyn).

43. Yn ogystal â pharhau â'r darpariaethau presennol, nododd y cynigion rai meysydd lle mae'r Adran o'r farn y dylid gwella'r trefniadau. Yn benodol, ymestyn y terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau mewn gwasanaeth o chwe mis i ddwy flynedd ar gyfer yr aelodau hynny sy'n cael eu gorfodi i roi'r gorau i addysgu oherwydd cyflyrau sy'n datblygu'n araf neu'n anodd eu canfod, neu gyflyrau lle mae'n anodd cael gafael ar driniaeth addas yn gyflym. Bydd hyn yn eu helpu drwy roi mwy o amser iddynt ddangos eu bod yn bodloni meini prawf analluogrwydd a mwy o amser i gael pensiwn salwch uwch os yw'n briodol.

44. Cydnabu'r Adran hefyd, ar ôl trafod â grwpiau rhanddeiliaid, fod angen i'r cyflog a ddefnyddir i gyfrifo unrhyw daliad ychwanegol ystyried a yw aelod o'r cynllun wedi lleihau ei oriau neu gymryd swydd â llai o gyfrifoldeb (camu i lawr), fel rhan o gamau a gymerwyd gan ei gyflogwr i helpu i reoli'r salwch – neu mae'n bosibl y câi ei daliad ychwanegol ei leihau'n annheg. O ganlyniad, cynigir, o dan y fath amgylchiadau, mai'r cyflog a ddefnyddir i gyfrifo unrhyw bensiwn uwch fyddai'r cyflog cyfwerth ag amser llawn adeg ymddeol neu'r cyflog cyfwerth ag amser llawn wedi'i ailbrisio, p'un bynnag yw'r uchaf (h.y. gyda mynegrifo er mwyn ei godi i'r gwerth presennol) o'r adeg y gwnaeth yr unigolyn leihau ei oriau neu ddechrau swydd â llai o gyfrifoldeb.

45. Yn olaf, cydnabu'r Adran fod y trefniadau ar gyfer cyfrifo grantiau salwch difrifol gwasanaeth byr yn rhy gymhleth. O ganlyniad, mae'n cynnig y dylai pob aelod sy'n gymwys i gael y grantiau hyn yn y dyfodol gael yr uchafswm sy'n daladwy ar hyn o bryd, h.y. cyflog dau fis.

46. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau penodol canlynol ynglŷn â'r cynigion ar gyfer parhau i ddarparu buddion salwch yn y cynllun diwygiedig.

| | | |
|---|---|---|
| **C6 A fydd cynigion yr Adran ar gyfer cyfrifo buddion salwch a grantiau salwch difrifol gwasanaeth byr yn sicrhau bod aelodau o'r cynllun yn parhau i gael cefnogaeth briodol, neu a oes unrhyw beth arall y mae angen i'r Adran ei ystyried?**<br><br>Cafwyd 57 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
| 22 (39%) Byddan | 11 (19%) Na fyddan | 24 (42%) Ddim yn siŵr |

47. Cytunodd 39% o ymatebwyr fod y cynigion yn decach ac y byddant yn rhoi mwy o gefnogaeth i aelodau o'r cynllun sy'n sâl, a oedd yn cynnwys yr undebau athrawon mwy o faint a chymdeithasau cyflogwyr. Croesawodd ymatebwyr, er enghraifft, y camau i ddiogelu'r rhai sy'n camu i lawr i swydd â chyflog is fel rhan o'r broses o reoli eu salwch.

48. Nododd 42% nad oeddent yn siŵr y byddai unrhyw welliant, tra roedd nifer lai o'r farn na fyddai'r cynigion yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i athrawon sâl.

49. Nid yw'n glir pam bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n ansicr ynghylch gwerth y cynigion hyn neu'n ystyried na fyddant yn gwella'r sefyllfa. Fodd bynnag, nododd nifer o'r ymatebwyr mai ychydig iawn a wyddant am y trefniadau salwch ac, felly, ei bod yn anodd iddynt wneud sylwadau arnynt. Nododd nifer fach hefyd eu bod o'r farn bod y trefniadau yn dibynnu gormod ar ddisgresiwn y cyflogwr, ac felly roeddent o'r farn na fyddai'r gwelliannau yn gwneud fawr o wahaniaeth.

## Ymateb y Llywodraeth

50. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ofalus. Cred y bydd y cynigion yn adeiladu ar y trefniadau presennol er mwyn sicrhau mynediad teg i gefnogaeth pan fydd ymddeol oherwydd salwch yn briodol, ac i lefel o gefnogaeth sy'n diogelu aelodau yn briodol.

51. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Adran o'r farn bod yr ymatebion negyddol neu ansicr i'w chynigion yma yn deillio'n bennaf o'r gamddealltwriaeth bod y buddion a ddyfernir i unigolyn sy'n ymddeol oherwydd salwch yn dibynnu gormod ar gyflogwyr neu ddiffyg profiad o'r trefniadau presennol. Er ei bod yn amlwg yn hollbwysig ac yn briodol bod cyflogwyr yn cydweithio â'u cyflogeion i reoli materion salwch, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yr Adran fydd yn parhau i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch dyfarnu buddion salwch.

| **C7 A fydd cynigion yr Adran ar gyfer ymestyn y terfynau amser ar gyfer gwneud cais i ymddeol oherwydd salwch mewn gwasanaeth yn ddigonol er mwyn helpu'r rhai â salwch sy'n anodd cael diagnosis neu salwch dirywiol yn briodol?**<br><br>Cafwyd 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 26 (43%) Byddan | 13 (22%) Na fyddan | 21 (35%) Ddim yn siŵr |

52. Croesawodd 43% o ymatebwyr y cynigion, roedd 35% yn ansicr ynghylch a fyddent yn helpu'r rhai â salwch sy'n datblygu'n araf ac roedd 22% yn eu gwrthwynebu. Tueddai'r rhai nad oeddent yn cefnogi'r cynigion i fod yn gyflogwyr a oedd yn pryderu y byddai'r trefniadau yn anodd eu gweinyddu ac yn gostus i'r cynllun. Nododd rhai athrawon a phenaethiaid nad oeddent o blaid y cynigion, ond ni nodwyd y rhesymau dros eu gwrthwynebiad.

53. Gofynnodd un ymatebydd am i'r Adran ystyried rhoi cyfle i'r rhai y dyfernir buddion heb eu cynyddu iddynt y cyfle i wneud cais arall yn ddiweddarach os bydd eu cyflwr yn gwaethygu a'u bod yn credu eu bod yn gymwys bellach i gael buddion uwch.

## Ymateb y Llywodraeth

54. Mae'r Adran wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn ofalus ac yn bwriadu rhoi'r cynnig ar waith fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori h.y. parhau â'r trefniadau ar gyfer buddion salwch fel y maent ar hyn o bryd, tra'n mireinio'r terfynau amser i gynorthwyo athrawon â chyflyrau sy'n datblygu'n araf neu'n anodd cael diagnosis.

55. Mae'r Adran yn derbyn y bydd problemau gweinyddol yn gysylltiedig â'r newid ac mae'n credu y bydd ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais 'mewn gwasanaeth' (h.y. un a fernir yn erbyn y meini prawf heb fod yn ddigon iach i addysgu a lle y gellir dyfarnu pensiwn uwch) yn helpu cyflogwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd y cyfnod o ddwy flynedd yn gweithredu ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys y ddarpariaeth sy'n caniatáu i gais gael ei ystyried fel un 'mewn gwasanaeth' ar yr amod bod yr athro yn parhau mewn cydberthynas gyflogaeth â'i gyflogwr. Mae'r Adran o'r farn ei bod yn rhoi opsiwn arall i gyflogwyr ac aelodau, lle, os yw'n briodol, y gellir rhoi terfyn ar y gydberthynas gyflogaeth heb fod hynny'n golygu na fydd yr athro wedyn yn gallu gwneud cais am fuddion uwch ac y bydd yn gorfod profi nad yw'n ddigon ffit i wneud unrhyw fath o waith er mwyn cael ei fuddion a gronnwyd.

56. Mewn perthynas â'r uchod, noda'r Adran fod rhai cyflogwyr, a nododd nad oeddent o blaid y cynnig, yn camddeall y byddai'n ofynnol iddynt gynnal y gydberthynas gyflogaeth am y cyfnod o ddwy flynedd, nad yw (fel uchod) yn wir. Serch hynny, mae'r Adran yn derbyn y bydd angen cyfathrebu a chanllawiau clir er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithio er budd cyflogwyr ac athrawon a bydd yn sicrhau y darperir hynny.

57. Nid yw'r Adran yn bwriadu newid y trefniadau presennol lle y pennir y buddion sy'n daladwy yn seiliedig ar gais gwreiddiol yr aelod am fuddion. Mae'n ystyried bod y system lle mai dim ond os bydd yr aelod wedi rhoi'r gorau i addysgu yn ddiweddar ac na all bryd hynny wneud unrhyw waith arall y mae buddion uwch ar

gael yn effeithiol a'i bod yn rhoi lefel deg o gymorth sy'n fforddiadwy i'r holl aelodau.

## Adran 4: Pontio

58. Bwriedir i'r cynigion hyn sicrhau'r canlynol:

- bod y diwygiadau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n helpu i sicrhau bod gan aelodau'r cynllun ddigon o amser i addasu eu cynilion pensiwn yn unol â hynny (yn arbennig drwy ddiogelu'r aelodau hynny sy'n agosáu at eu NPA presennol a diogelu buddion sydd eisoes wedi cronni);
- bod y trefniadau yn cefnogi ac yn diogelu aelodau sy'n newid o'r trefniadau cyflog terfynol i'r trefniadau cyfartalog gyrfa gyfan yn effeithiol;
- bod effaith y newidiadau ar aelodau unigol yn glir.

Nodir prif elfennau'r cynigion yn adran 4 o'r ddogfen ymgynghori.

59. Yn achos aelodau presennol y TPS a fydd yn trosglwyddo i'r cynllun diwygiedig, mae'r cynigion yn nodi sut y bydd hynny yn effeithio ar eu buddion. Yn benodol, mae'n ymdrin â sut y caiff pensiynau a chyfandaliadau aelodau a dibynyddion, ynghyd â buddion eraill megis salwch, eu cyfrifo ar gyfer yr aelodau hynny sydd â gwasanaeth yn y cynllun cyflog terfynol a'r cynllun diwygiedig.

60. Mae'r cynigion hefyd yn nodi'r opsiynau sydd ar gael o hyd i'r aelodau, e.e. dewis pryd i ymddeol a hawlio buddion. Fel ar hyn o bryd, bydd buddion ar gael o oedran 55, neu gellir eu hawlio ar ôl yr NPA sy'n gymwys iddynt.

61. Hefyd, cynigiodd yr Adran y dylid newid y terfynau oedran ar gyfer trosglwyddiadau er mwyn galluogi aelod sydd dros oedran ymddeol y cynllun cyflog terfynol i ddewis trosglwyddo buddion i un o gynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus os bydd yn newid galwedigaeth yn hwyr yn ei yrfa. Mae hyn yn cydnabod, yn y dyfodol, ei bod yn bosibl y bydd aelodau pontio yn dewis parhau i weithio ar ôl eu NPA yn y cynllun presennol a'i bod yn bosibl y byddant hefyd am newid gyrfa ar ôl yr oedran hwnnw.

62. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau penodol canlynol ynglŷn â'r cynigion ar gyfer trosglwyddo.

<table>
<tr><td colspan="3">C8 A yw’r trefniadau arfaethedig yn ddigon clir i helpu i sicrhau y gall aelodau o’r cynllun reoli’r broses o drosglwyddo i’r trefniadau newydd yn effeithiol?<br><br>Cafwyd 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.</td></tr>
<tr><td>17 (28%) Ydyn</td><td>31 (52%) Nac ydyn</td><td>12 (20%) Ddim yn siŵr</td></tr>
</table>

63. Cytunodd 28% o ymatebwyr fod y trefniadau yn glir, tra nododd 52% nad oedd effaith y trefniadau yn glir. Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle i leisio eu gwrthwynebiad i'r cynnig i ddiwygio'r cynllun yn gyffredinol, neu elfennau unigol o bolisi sy'n gysylltiedig ag ef, megis lleihau pensiwn neu'r ffaith y bydd yr hawl i

gael buddion cyflog terfynol a buddion gofal yn gysylltiedig â phryd y bydd yr aelod yn ymddeol.

64. Roedd nifer sylweddol o athrawon neu benaethiaid o'r farn bod y trefniadau yn aneglur neu nid oeddent yn siŵr amdanynt. Cyfeiriwyd at gymhlethdod cyffredinol y newidiadau, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n trosglwyddo o'r cynllun presennol i'r cynllun diwygiedig. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith ei bod yn anodd asesu eu sefyllfa unigol eu hunain.

## Ymateb y Llywodraeth

65. Mae'r Adran yn deall yn iawn fod trefniadau trosglwyddo ynghlwm wrth y cynigion ac y gall fod yn anodd gweithio drwy'r effaith ar unigolion, yn arbennig oherwydd yr holl newidynnau sy'n gysylltiedig â'r broses. Yn y ddogfen ymgynghori ceisiodd esbonio'r effeithiau ar unigolion a'u buddion mor syml a chlir â phosibl, ac, mewn cysylltiad â'r adnodd ar-lein a oedd yn ategu'r ymgynghoriad, ymdrin â phob senario sy'n effeithio ar yr aelodau.

66. Mae'r Adran yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae wedi'u hastudio'n ofalus. Mae'n dal i gredu bod ei chynigion ar gyfer trosglwyddo yn briodol ac yn synhwyrol a bydd yn eu gweithredu. Hynny yw, y bydd y cynigion yn sicrhau bod y broses o drosglwyddo i'r trefniadau newydd mor ddidrafferth â phosibl, tra'n diogelu hawliau cronedig yr aelodau ac yn parhau i ddarparu trefniadau ac opsiynau pensiwn da i bawb. Serch hynny, bydd yr Adran yn cymryd camau i sicrhau bod dealltwriaeth aelodau a chyflogwyr yn ffocws allweddol. Mewn perthynas â hynny, bydd yr Adran yn ystyried yr awgrymiadau defnyddiol a gyflwynwyd gan ymatebwyr, a bydd yn datblygu ymhellach yr adnoddau sy'n dangos yr effaith ar aelodau unigol.

67. Ymdriniwyd uchod â'r mater sy'n ymwneud â dilysrwydd yr achos dros ddiwygio'r TPS. Fodd bynnag, byddai'r Adran yn nodi'r canlynol mewn ymateb i bryderon ynghylch materion polisi manwl.

- Mae lleihad yn nodwedd hirsefydledig o gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus y bwriedir iddo ddiogelu arian cyhoeddus lle mae unigolyn sy'n cael pensiwn ymddeol yn dychwelyd i'r gwaith mewn swydd a gwmpesir gan y cynllun pensiwn. Mae angen y trefniadau er mwyn diogelu'r Trysorlys o ran unigolion sy'n aelodau o'r cynllun cyflog terfynol presennol.

- Mae'r Adran yn deall yr honiadau, gan rai, y dylai aelodau â gwasanaeth yn y ddau gynllun allu hawlio eu priod fuddion pensiwn ar wahân, h.y. eu buddion cyflog terfynol a'u buddion cyfartalog gyrfa gyfan ar wahân. Fodd bynnag, mae'r Adran yn cynnig y dylid parhau â'r trefniant presennol lle mai dim ond os bydd aelod wedi gadael holl gyflogaeth y cynllun y mae buddion ar gael, a thelir yr holl fuddion ar unwaith – ar y sail bod yr unigolyn wedi ‘ymddeol’.

| **C9 A ydych yn cytuno y dylai aelodau pontio'r cynllun sydd wedi pasio eu NPA cyflog terfynol a symud o fewn y gwasanaeth cyhoeddus gael yr opsiwn i drosglwyddo eu buddion ar yr amod bod eu cynllun pensiwn newydd o fewn Clwb Trosglwyddo'r Sector Cyhoeddus?**<br><br>Cafwyd 64 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 40 (63%) Ydyn | 6 (9%) Nac ydyn | 18 (28%) Ddim yn siŵr |

68. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y cynnig hwn ac yn cytuno y dylai'r rhai sy'n parhau i weithio ar ôl eu hoedran pensiwn arferol presennol allu trosglwyddo pensiwn i un o gynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus. O'r nifer fach a oedd yn anghytuno roedd y rhan fwyaf yn pryderu ynghylch y goblygiadau cost, er i o leiaf un awgrymu y dylid ymestyn hyn er mwyn caniatáu trosglwyddiadau i unrhyw gynllun pensiwn. Tueddai'r rhai a oedd yn ansicr nodi nad oedd ganddynt unrhyw brofiad i'w galluogi i wneud sylwadau ar y mater.

## Ymateb y Llywodraeth

69. Hoffai'r Adran ddiolch i'r ymatebwyr am eu barn a'u sylwadau a bydd yn bwrw ymlaen â'i chynigion yma. Cred y bydd y cyfleuster yn helpu'r rhai sydd am barhau i weithio'n hwy ac yn helpu cyflogwyr yn y gwasanaeth cyhoeddus i recriwtio staff – yn enwedig unigolion sydd â phrofiad perthnasol yn y gwasanaeth cyhoeddus.

70. Byddai'r Adran yn nodi nad yw'r cynnig hwn yn peri risg ariannol sylweddol i'r cynllun, am fod gwerthoedd trosglwyddo yn cael eu cyfrifo ar sail cost-niwtral actiwaraidd ac mae hyn yn annhebygol o gynyddu nifer y trosglwyddiadau ddigon i beri risg actiwaraidd arall.

71. Ni fwriedir ymestyn y cyfleuster hwn i'w gwneud yn bosibl i drosglwyddo pensiynau i gynlluniau yn y sector preifat ar ôl yr oedran pensiwn arferol. Y rheswm dros hyn yw mai nod y cynnig yw helpu aelodau a chyflogwyr i symud (staff medrus) ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, ond mae hefyd yn cydnabod bod risgiau yn gysylltiedig â throsglwyddo darpariaeth pensiwn y tu allan i'r gwasanaeth cyhoeddus mor agos at oedran ymddeol tebygol unigolyn.

## Adran 5: Hyblygrwydd pensiwn

72. Bydd y trefniadau ar gyfer diwygio'r TPS yn sicrhau y gall aelodau barhau i gronni pensiynau da, rhai sydd wedi'u gwarantu ac wedi'u mynegrifo a chyda'r gorau sydd ar gael. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd rhai aelodau am gronni buddion ychwanegol a/neu ymddeol yn gynnar ac, o ganlyniad, cynigir y dylai'r TPS barhau i gynnig gwahanol fathau o hyblygrwydd er mwyn cynorthwyo aelodau yn hyn o beth.

73. Felly, cynigiodd yr Adran y dylid parhau â'r hyblygrwydd presennol, gan gynnwys yr opsiwn i brynu pensiwn ychwanegol a chymryd buddion wedi'u haddasu'n actiwaraidd cyn yr oedran pensiwn arferol, a'r opsiwn i ymddeol yn raddol. Bwriedir i'r opsiynau hyn gynyddu buddion aelodau a hwyluso'r broses o drosglwyddo o roi'r gorau i weithio ac ymddeol.

74. Mewn ymateb i drafodaethau â rhanddeiliaid roedd y cytundeb terfynol arfaethedig yn cynnwys cynigion ar gyfer cynnwys hyblygrwydd ychwanegol yn y cynllun diwygiedig, er mwyn galluogi aelodau presennol i gadw eu cynlluniau ymddeol presennol a rhoi mwy o ddewisiadau i aelodau yn y dyfodol o ran cynilo a chynllunio ar gyfer ymddeoliad. Nododd Adran 5 o'r ymgynghoriad gynigion yr Adran ynglŷn â sut y bydd yr hyblygrwydd newydd hwn yn gweithredu'n ymarferol.

75. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio helpu cyflogwyr i helpu athrawon i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, a sicrhau nad yw'r hyblygrwydd yn gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi beichiau gweinyddol gormodol ar gyflogwyr a darparwyr eu cyflogresi.

76. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau canlynol ynglŷn â hyblygrwydd y cynllun.

**C10 A yw cynigion yr Adran ar gyfer gweithredu croniad cyflymach yn rhoi digon o hyblygrwydd i aelodau'r cynllun tra hefyd yn ymarferol i'w weinyddu gan gyflogwyr a darparwyr y gyflogres?**

Cafwyd 64 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

| | | |
|---|---|---|
| 17 (27%) Ydyn | 28 (44%) Nac ydyn | 19 (29%) Ddim yn siŵr |

77. Croesawodd cyfran sylweddol o ymatebwyr yr hyblygrwydd ychwanegol hwn, ond dywedodd tua 44% nad yw'n rhoi digon o hyblygrwydd neu y bydd yn anodd ei weinyddu a'i ddeall. O'r rheiny, awgrymodd nifer sylweddol na fyddai angen y ddarpariaeth hon am y dylid parhau â'r cynllun fel y mae ar hyn o bryd, neu na fyddai'r rhan fwyaf o aelodau yn gallu fforddio'r hyblygrwydd ychwanegol, yn enwedig aelodau ar gyflogau is, aelodau sy'n gweithio'n rhan-amser neu aelodau ethnig ac anabl. Tueddai'r rhai nad oeddent yn siŵr am werth y cynnig hwn i gyfeirio at y ffaith bod mathau eraill o hyblygrwydd ar gael neu at broblemau yn ymwneud â fforddiadwyedd.

## Ymateb y Llywodraeth

78. Mae'r Adran yn croesawu'r sylwadau a gafwyd. Mae'n deall y pryderon ynghylch fforddiadwyedd a phroblemau gweinyddol ond serch hynny mae o'r farn bod hwn

yn hyblygrwydd gwerthfawr, yn enwedig am ei fod yn wahanol i'r mathau eraill o hyblygrwydd am ei fod yn cynnig cyfle i unigolion ychwanegu at eu pensiwn heb orfod gwneud ymrwymiad hirdymor na thalu swm mawr o arian parod ar unwaith. I'r perwyl hwnnw mae'r Adran o'r farn y bydd yn cynnig mwy o hygyrchedd i'r rhai ar gyflogau is nag a wna'r hyblygrwydd presennol (er enghraifft, byddant yn gallu defnyddio'r cyfleuster hwn ar unrhyw adeg yn ystod eu gyrfa). Roedd hefyd o'r farn bod y trefniadau arfaethedig yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng cynnig lefel resymol o hyblygrwydd i aelodau (drwy dair cyfradd gronni wahanol) a sicrhau eu bod mor hawdd eu gweinyddu â phosibl (drwy'r nifer gyfyngedig o gyfraddau) ac ymrwymiad i gymryd rhan yn y cynllun am flwyddyn).

Felly, mae'r Adran yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ond bydd yn sicrhau ei bod yn ystyried yn ofalus anghenion aelodau a chyflogwyr wrth ei roi ar waith, h.y. bod canllawiau a phrosesau mor syml a dealladwy â phosibl.

| **C11a A ddylai'r opsiwn i brynu'r addasiad actiwaraidd fod yn rhan o'r cynllun diwygiedig?**<br><br>Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 21 (34%) Dylai | 18 (29%) Na ddylai | 23 (37%) Ddim yn siŵr |

79. Cytunodd 34% o ymatebwyr y dylai'r nodwedd hon fod yn rhan o'r cynllun diwygiedig. Nid oedd 37% yn siŵr ac roedd 29% o'r farn nad oedd angen yr opsiwn i brynu addasiadau actiwaraidd. O'r ddau grŵp olaf, tueddai'r ymatebwyr i ddadlau bod cynnwys y nodwedd hon gyfystyr â derbyn na ddylid disgwyl i athrawon weithio ar ôl iddynt gyrraedd 65 oed ac nad oedd angen newid y trefniadau presennol, neu fod hyn i'w weld yn rhy gymhleth i fod yn werth chweil.

| **C11b A ydych yn cytuno â chynigion yr Adran i weithredu'r opsiwn hwn?**<br><br>Cafwyd 60 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 7 (12%) Ydyn | 22 (37%) Nac ydyn | 31 (51%) Ddim yn siŵr |

80. Roedd 37% o ymatebwyr yn anghytuno â chynigion yr Adran y dylid rhoi cyfle untro i aelodau ddewis yr opsiwn hwn wrth ymuno â'r cynllun a dadleuodd y rhan fwyaf ohonynt ei bod yn afrealistig disgwyl i athrawon wneud hynny mor gynnar yn eu gyrfa neu fod y mathau eraill o hyblygrwydd yn ddigonol. Roedd y rhan fwyaf yn ansicr, gan nodi'r rhesymau uchod a'r cymhlethdodau cysylltiedig, a chytunodd 12% fod y cynigion yn synhwyrol.

### Ymateb y Llywodraeth (11a ac 11b)

81. Mae'r Adran yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd i'r cynigion ar gyfer prynu addasiadau actiwaraidd. Cydnabu fod y cynnig yn gymhleth a'i bod yn bosibl na fydd yr opsiwn hwn yn apelio at bawb. Mae'n wahanol i'r mathau eraill o hyblygrwydd am ei fod yn cynnig cyfle i aelodau gynllunio tuag at ddyddiad/amser ymddeol penodol, yn hytrach na chynllunio drwy brynu cynilion pensiwn ychwanegol. Mae'r Adran yn sylweddoli bod hyn, felly, yn fwy tebygol o apelio at y rhai y mae ganddynt ddyddiad ymddeol mewn golwg, gan gynnwys y rhai sy'n

trosglwyddo i'r cynllun diwygiedig o'r cynllun presennol gyda'r fath ddyddiad mewn golwg. Ond nid yw hynny'n golygu na fydd yn apelio at eraill ac mae'n rhaid ei ystyried ochr yn ochr â'r pecyn cyflawn o hyblygrwydd wrth ystyried ei werth a materion megis tegwch a chydraddoldeb. Hynny yw, mae gan bob math o hyblygrwydd nodweddion a fydd yn golygu bod un math o hyblygrwydd yn fwy deniadol i rai aelodau na mathau eraill, ac fel pecyn maent yn cynnig amrywiaeth eang o opsiynau i helpu aelodau i gynllunio neu gynilo mwy ar gyfer eu hymddeoliad.

82. O ran sut y bydd yr hyblygrwydd hwn yn gweithio, dim ond i wasanaeth yn y dyfodol y gall fod yn gymwys, ac o ganlyniad mae'r Adran o'r farn mai'r unig ateb ymarferol yw'r hyn a geir yng nghynnig yr ymgynghoriad, h.y. y rhoddir cyfle untro i aelodau ddewis gwneud hyn wrth ymuno â'r cynllun. Felly, mae'r cynnig yn rhoi i aelodau yr opsiwn i dalu am yr uchafswm gwasanaeth posibl – h.y. o'r adeg y maent yn ymuno â'r cynllun.

83. Derbynnir ei bod yn bosibl y bydd aelodau sy'n ymuno â'r cynllun am y tro cyntaf yn ei chael hi'n anodd gwneud y fath ymrwymiad o'r cychwyn a'i bod yn bosibl y bydd yr hyblygrwydd yn fwy deniadol i'r aelodau hynny sydd ar ganol eu gyrfa ac sy'n ymuno â'r cynllun diwygiedig bryd hynny. Er ei bod yn bosibl y bydd hynny yn golygu bod yr hyblygrwydd hwn yn fwy deniadol i rai aelodau nag i aelodau eraill, o'i ystyried â'r mathau eraill o hyblygrwydd, mae'r Adran o'r farn eu bod yn cynnig i'r holl aelodau rywbeth a all weddu i'w hamgylchiadau – ac felly mae'r hyblygrwydd, yn gyffredinol, yn deg. Bydd y graddau y gall unigolion fforddio neu ddewis manteisio ar y fath hyblygrwydd yn amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, heblaw am lefel yr enillion, ac nid yw'r Adran yn derbyn eu bod yn ffafrio rhai grwpiau penodol yn fwy na grwpiau eraill.

84. Nid yw'r Adran yn derbyn bod yr hyblygrwydd hwn yn arwydd na ddylid disgwyl i athrawon barhau i weithio ar ôl iddynt gyrraedd 65 oed. Fe'i cynhwyswyd gyda'r bwriad o roi cyfle i aelodau ddewis ymddeol ar ôl iddynt gyrraedd 65 oed ar bensiwn nas lleihawyd os byddant yn dewis gwneud hynny.

85. Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r holl faterion yn ofalus, mae'r Adran yn cynnig y dylid rhoi'r trefniant hwn ar waith yn unol â'r hyn a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

## Adran 6: Ymddiriedolaethau Academi gan gynnwys Ymddiriedolaethau Aml-Academi

86. Nod y cynnig hwn yw lleihau beichiau gweinyddol, gan alluogi Ymddiriedolaethau Aml-Academi i reoli'r modd y cyflawnir rhwymedigaethau pensiwn yn well. Er enghraifft, o dan y trefniadau presennol, mae'n rhaid i bob Academi o fewn cadwyn gyflwyno ffurflenni gwasanaeth a chyflog cyflogeion i'r gweinyddwr pensiynau canolog ond, o dan y trefniadau newydd, bydd Ymddiriedolaeth Aml-Academi yn gallu cyflwyno un ffurflen ar gyfer pob Academi yn y gadwyn. Ni fydd y sefyllfa reoleiddiol yn un a orfodir, ond bydd yn rhoi hyblygrwydd i Ymddiriedolaethau Aml-Academi gyflawni eu rhwymedigaethau i gyflogeion a'r cynllun yn ôl yr hyn a benderfynant gan ystyried eu hateb gweinyddol ehangach.

87. Gofynnodd yr Adran y cwestiwn canlynol ynglŷn ag Ymddiriedolaethau Aml-Academi.

| **C12 Y bwriad yw lleihau'r beichiau gweinyddol ar drefniadau presennol, yn arbennig ar gyfer Ymddiriedolaethau Aml-Academi. A yw'r cynigion a amlinellir yn yr adran hon yn mynd i'r afael â'r prif faterion? Os na, pam ddim?**<br><br>Cafwyd 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 12 (26%) Ydyn | 12 (26%) Nac ydyn | 23 (48%) Ddim yn siŵr |

88. Cytunodd tua 25% o ymatebion â'r cynnig, nid oedd 50% yn siŵr ac roedd 25% yn anghytuno. O'r ymatebwyr hynny nad oeddynt yn siŵr, nododd llawer nad oeddent yn gweithio nac yn gweithredu yn y sector ysgolion ac, felly, nid oeddent yn deall y mater. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn pryderu ynghylch beichiau cynyddol neu roeddent am i'r ALl barhau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb, a chafwyd rhai ymholiadau ynghylch ymestyn y dull gweinyddol i gynnwys grwpiau cyflogwyr eraill.

## Ymateb y Llywodraeth

89. Mae'r Adran wedi ystyried yr ymatebion yn llawn ac mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig i ganiatáu i Ymddiriedolaethau Aml-Academi weithredu fel y cyflogwyr at ddibenion y TPS. Cred y bydd hyn yn nodi'n gliriach yr atebolrwydd am gyflawni dyletswyddau cyflogwyr, am ei fod yn cyd-fynd â'r ffaith mai'r Ymddiriedolaeth Aml-Academi yw'r cyflogwr at bob diben arall, ac ni fydd yn ychwanegu'n ormodol at feichiau am y bydd Ymddiriedolaethau Aml-Academi, er enghraifft, eisoes yn cadw'r data sydd ei angen at ddibenion pensiynau.

90. Mae'r Adran yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd grwpiau cyflogwyr eraill yn gallu cyfuno swyddogaethau ac adnoddau er mwyn sicrhau manteision gweinyddol. Bydd yr Adran yn ystyried ymhellach a ellir cynnig yr un trefniant i grwpiau cyflogwyr eraill.

## Adran 7: Taliadau ymddeoliad cyn pryd a thaliadau digolledu eraill

91. Bwriad y cynnig hwn yw parhau â'r trefniadau digolledu ar gyfer ymddeoliad cyn pryd (PRC) lle y gall cyflogwyr dalu iawndal i athrawon sy'n cael eu diswyddo neu eu rhyddhau er mwyn galluogi'r cyflogwyr i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon. Mae'r iawndal yn talu'r costau sy'n gysylltiedig ag osgoi unrhyw addasiad actiwaraidd i bensiwn yr athro, ac unrhyw gynnydd at bensiwn yr unigolyn os bydd y cyflogwr yn dewis ei ddyfarnu a'i brynu. Yr unig newid sylweddol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yw'r ffaith nad oes unrhyw derfyn uchaf ar faint o wasanaeth (ac felly pensiwn) y gall unigolyn ei gronni yn y cynllun diwygiedig – ac mae'n cynnwys dileu'r terfyn cysylltiedig a oedd yn gymwys yn flaenorol i'r swm o iawndal a ddyfarnwyd ar gyfer ymddeoliad cyn pryd.

92. Gofynnodd yr Adran y cwestiwn canlynol ynglŷn â'r cynnig hwn

| **C13 A ydych yn cytuno y bydd y trefniadau PRC arfaethedig yn helpu cyflogwyr ac aelodau yn briodol pan ystyrir terfynu cyflogaeth yn gynnar?**<br><br>Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 23 (37%) Ydyn | 19 (31%) Nac ydyn | 20 (32%) Ddim yn siŵr |

93. Cafwyd cymysgedd cyfartal o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig neu a oedd yn ansicr dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai fod yn orfodol i gyflogwyr ddyfarnu PRC, neu gwnaethant leisio pryderon nad yw ysgolion yn ei ddyfarnu yn ddigon aml. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn y categori hwn yn dod o sefydliadau nas cwmpesir gan y trefniadau ar gyfer PRC, h.y. sefydliadau addysg uwch.

### Ymateb y Llywodraeth

94. Ni wrthwynebwyd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn llwyr, yn hytrach roedd cefnogaeth gyffredinol i barhau ag egwyddorion PRC a diweddaru rheoliadau yn ôl yr angen er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i'r system addysg.

95. Mae'r Adran yn cynnig y dylid rhoi cynigion yr ymgynghoriad ar waith. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr i barhau i ddefnyddio iawndal ar gyfer ymddeoliad cyn pryd i brynu pensiwn i athrawon pan gytunwyd ar hynny fel rhan o gynllun terfynu cyflogaeth. Caiff diwygiadau i reoliadau PRC eu datblygu, ond noder bod y rheiny yn debygol o gael eu cyflwyno ar wahân i brif reoliadau'r TPS sy'n gysylltiedig â gweddill yr ymgynghoriad hwn. Mae hynny'n debygol o ddigwydd ym mis Medi 2014, a fydd, serch hynny, yn sicrhau y bydd y trefniadau ar gyfer PRC yn parhau i gael eu cymhwyso'n briodol, cyn ac ar ôl i'r cynllun diwygiedig gael ei gyflwyno.

96. O fewn y darpariaethau uchod, nid oes gan yr Adran unrhyw gynlluniau i wneud PRC yn orfodol. Mater i'r athro a'r cyflogwr gyda'i gilydd yw penderfynu a ddylid dyfarnu iawndal a mater sy'n ymwneud â chyflogaeth yn hytrach na phensiwn ydyw. Serch hynny, bydd cynnig yr ymgynghoriad yn galluogi cyflogwyr i dalu'r fath iawndal pan fyddant yn cytuno ar hynny gyda'r athro dan sylw fel rhan o becyn terfynu cyflogaeth.

## Adran 8: Llywodraethu

97. Mae'r adran hon yn nodi cynigion yr Adran ar gyfer sefydlu Bwrdd Pensiynau a Bwrdd Cynghori ar gyfer Cynllun y TPS yn unol ag argymhellion yr Arglwydd Hutton. Mae'r cynigion yn awgrymu sut y gallai'r Bwrdd weithredu drwy ddisgrifio'r prif feysydd cyfrifoldeb, rhai o'r swyddogaethau gweithredol a sut y gellid sefydlu'r Bwrdd. Mae cynigion yr Adran yn adlewyrchu'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a byddant yn sefydlu Bwrdd Pensiynau'r TPS a Bwrdd Cynghori Cynllun y TPS. Bydd y cyntaf yn sicrhau bod yr aelodau a'r cyflogwyr yn cael mwy o ddylanwad ar y modd y gweinyddir y cynllun a bydd yr olaf yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddylanwadu ar y modd y caiff y polisi ei ddatblygu.

98. Gofynnodd yr Adran y cwestiynau canlynol ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cyflwyno Bwrdd Pensiynau'r TPS ar gyfer y TPS.

| **C14 A yw cylch gwaith, strwythur a gweithrediad arfaethedig y Bwrdd yn rhoi sicrwydd i aelodau'r cynllun a'r cyflogwr ynghylch gwaith gweinyddu'r cynllun fel yr argymhellir gan yr Arglwydd Hutton?**<br><br>Cafwyd 64 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 14 (22%) Ydyn | 29 (45%) Nac ydyn | 21 (33%) Ddim yn siŵr |

99. Roedd 45% o ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion yn rhoi sicrwydd i aelodau na chyflogwyr ynghylch y modd y gweinyddir y cynllun, roedd 33% o ymatebwyr yn ansicr ac roedd tua 22% o'r farn y byddai'r cynigion yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol.

100. Arweiniodd y cwestiwn hwn at ymatebion a oedd yn ymwneud â rôl yr Ysgrifennydd Gwladol a swyddogion fel aelodau gweithredol o'r Bwrdd Pensiynau; nifer o awgrymiadau amgen ar gyfer cyfansoddiad, aelodaeth, maint a daliadaeth y Bwrdd Pensiynau a chefnogaeth i gynigion i ddefnyddio'r Gweithgor Pensiynau Athrawon (TSWG) sy'n bodoli eisoes fel sail ar gyfer sefydlu Bwrdd Cynghori Cynllun y TPS.

101. Lleisiodd y rhan fwyaf o ymatebion i'r cwestiwn hwn bryderon ynghylch cynigion i gynnwys dau swyddog fel rhan o'r aelodaeth ac awgrymodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai swyddogion chwarae rhan mewn rôl gynghori yn hytrach na bod yn aelodau llawn o'r Bwrdd Pensiynau. Yn gysylltiedig â hyn roedd y pryder y gallai cyfranogiad swyddogol arwain at wrthdaro buddiannau am y byddai swyddogion yn penderfynu ar bolisi ac yn llywio'r broses o'i roi ar waith ac am nad oedd swyddogion yn annibynnol byddai eu cyfranogiad yn dylanwadu ar yr aelodau gan eu hachosi i ffafrio cyflogwyr. Awgrymodd un ymatebydd na allai'r Bwrdd Pensiynau fel y'i cynigiwyd gyflawni ei gylch gwaith am fod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhy eang. Er enghraifft, gall benodi aelodau'r Bwrdd Pensiynau a nodi sut y bydd y Bwrdd yn gweithredu, sy'n golygu, i bob pwrpas, y bydd yn rheoli pob agwedd ar y Bwrdd Pensiynau, ac mae cylch gwaith y Bwrdd Pensiynau yn rhy gul, hynny yw, dim ond o fewn y ffiniau a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gall weithredu.

102. Cafwyd awgrymiadau amgen ynglŷn â faint o aelodau a ddylai fod gan y Bwrdd Pensiynau ac awgrymodd rhai y dylai fod ganddo fwy o aelodau na'r hyn a gynigiwyd er mwyn cynnwys mwy o randdeiliaid ar y Bwrdd. Awgrymodd eraill y dylid neilltuo lleoedd yn seiliedig ar faint y gwahanol aelodaethau gan roi'r gyfran fwyaf o'r lleoedd ar y Bwrdd Pensiynau i'r rhai sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o gyflogwyr. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y dylid neilltuo lleoedd drwy eu rhannu'n gyfartal rhwng cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau ar draul cynrychiolaeth swyddogol.

103. Awgrymodd un ymatebydd y dylid nodi'r hyn y gellid disgwyl yn realistig i Fwrdd Pensiynau gwirfoddol ei gyflawni mewn cyfarfodydd chwarterol. Teimlwyd bod y cynigion presennol yn rhy uchelgeisiol ac nad oedd y Bwrdd ond yn gallu cyflawni rôl arwynebol o ran rhoi sicrwydd ynghylch y modd y gweinyddir y cynllun i'r Ysgrifennydd Gwladol.

104. Er na ofynnwyd cwestiwn penodol am Fwrdd Cynghori'r Cynllun roedd consensws a chefnogaeth gyffredinol o blaid ein cynnig i seilio unrhyw fodel yn y dyfodol ar y Gweithgor Pensiynau Athrawon.

## Ymateb y Llywodraeth

105. Mae adroddiad yr Arglwydd Hutton yn cyflwyno'r achos dros sefydlu Bwrdd Pensiynau ar gyfer pob un o gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Prif nod y "Bwrdd" yw mynd i'r afael â diffyg dull gweithredu safonol ar draws cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus y llywodraeth a rhoi hyder i aelodau'r cynllun, trethdalwyr ac eraill fod cynlluniau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Wrth gydnabod yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Arglwydd Hutton, mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynllun sefydlu Bwrdd Pensiynau a Bwrdd Cynghori'r Cynllun.

106. Nodir prif swyddogaeth y Bwrdd Pensiynau yn glir mewn deddfwriaeth sylfaenol a bwriedir iddo helpu "rheolwr y cynllun", sef yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr achos hwn, i weinyddu'r cynllun yn effeithiol, yn benodol o ran y materion sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth â'r cynllun pensiwn a rheoliadau cysylltiedig ac ag unrhyw ofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. O dan y gyfraith, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn bennaf cyfrifol am reoli'r cynllun o hyd.

107. Y mater roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn pryderu yn ei gylch oedd y cynnig i gynnwys swyddogion ar lefel Bwrdd. Er mwyn deall safbwynt yr Adran efallai y bydd yn werth cadarnhau na fwriedir i'r Bwrdd Pensiynau fod yn annibynnol ar yr Ysgrifennydd Gwladol.

108. Yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r prif randdeiliad yn y TPS ac mae ganddo gyfrifoldebau i Senedd San Steffan ac mae'n atebol iddi am reoli'r cynllun yn effeithiol. Felly, byddai'n amhriodol ac yn anghywir pe na bai gan yr Ysgrifennydd Gwlad swyddogion fel aelodau gweithredol o'r Bwrdd. Rôl swyddogion ar y Bwrdd hwn fydd sicrhau bod y cynllun yn gweithredu yn unol â phrotocolau llywodraeth ganolog, bod y sicrwydd priodol wedi'i roi er mwyn diogelu cronfa'r TPS ac y caiff polisi llywodraeth ganolog sy'n ymwneud â pholisi pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus a pholisi pensiwn cyffredinol ei gyflawni fel y bwriadwyd o fewn y TPS. Wrth esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol a swyddogion mewn perthynas â'r Bwrdd Pensiynau ni chredwn fod gwrthdaro

buddiannau, a oedd yn bryder arall a godwyd gan nifer o ymatebwyr. Hefyd, yn y model hwn ni fyddai'r rhaniad 50/50 rhwng yr aelodau a chyflogwyr yn briodol.

109. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio y bydd swyddogion yn gweithredu'n annibynnol ar unrhyw grŵp rhanddeiliaid ac na fyddant, fel yr awgrymwyd, yn alinio â chynrychiolwyr cyflogwyr.

110. Yn unol ag argymhellion yr Arglwydd Hutton, bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn datblygu fframwaith a fydd yn profi, ymhlith pethau eraill, dryloywder gweithrediadau o fewn cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y Rheoleiddiwr hefyd yn ychwanegu lefel ychwanegol o graffu annibynnol ar effeithiolrwydd a pherfformiad y Bwrdd Pensiynau. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r ymatebwyr hynny sy'n pryderu y bydd penodi swyddogion i'r Bwrdd yn tanseilio ei annibyniaeth ac yn amharu ar ei berfformiad.

111. Wrth ddwyn ynghyd gynigion ar gyfer y Bwrdd Pensiynau edrychodd swyddogion ar arfer gorau mewn cynlluniau pensiwn eraill a gwrandawodd ar randdeiliaid cyn penderfynu ar faint a chyfansoddiad yr aelodaeth. Yn gyffredinol, mae ymatebwyr wedi tueddu i wneud awgrymiadau amgen er mwyn atgyfnerthu ac adlewyrchu eu buddiant eu hunain o ran aelodaeth neu awgrymu cynyddu nifer yr aelodau er mwyn cynnwys cynrychiolwyr o'r grŵp rhanddeiliaid ehangach. Rydym yn cydnabod, yn yr achos hwn, ei bod yn bosibl y byddwn am adolygu maint a chyfansoddiad y Bwrdd yn y dyfodol ac, yn ôl pob tebyg, unwaith y bydd y Bwrdd wedi cael cyfle i ymsefydlu. O ganlyniad, byddwn yn ceisio cyflwyno rheoliadau sy'n galluogi'r Bwrdd i fod yn hyblyg o ran ei aelodaeth yn y dyfodol.

112. Yn yr un modd, byddwn yn gweithio'n agos â phartïon â diddordeb er mwyn sicrhau y gall y Bwrdd gyflawni ei swyddogaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol a'i fod yn gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu prosesau a gweithdrefnau syml i helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau.

113. Nododd un ymatebydd fod angen bod yn ofalus ynghylch daliadaeth aelodau a sicrhau parhad wrth i aelodau gael eu penodi. Cytunwn ac, i ddechrau, rydym yn bwriadu penodi aelodau ar delerau hyblyg yn amrywio o flwyddyn i dair blynedd. Bydd y dull hyblyg hwn o weithredu yn sicrhau parhad o ran gwasanaeth ac yn osgoi'r angen i ddiswyddo ac ailbenodi aelodau ar ddiwedd cyfnod o dair blynedd.

114. Ni ofynnodd yr ymgynghoriad gwestiwn penodol am gynigion ar gyfer Bwrdd Cynghori'r Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr hynny a gyflwynodd awgrymiadau a chynigion ar gyfer datblygu'r Bwrdd hwn. Yn wahanol i'r Bwrdd Pensiynau bydd Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn cynnig cyngor, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, ar faterion sy'n ymwneud â pholisi pensiwn a'r effaith ar y TPS.

115. Yn seiliedig ar ymatebion o'r ymgynghoriad hwn a'r arfer da a ddatblygwyd dros y blynyddoedd, yn bennaf o'r TSWG, rydym wrthi'n datblygu cynigion manylach ar gyfer datblygu'r Bwrdd hwn. Bwriadwn atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu Bwrdd Cynghori'r Cynllun sy'n adlewyrchu, hyd y gellir, y trefniadau presennol.

116. Mae'r Adran o'r farn bod cynigion yr ymgynghoriad yn cyflawni'n effeithiol yr hyn sydd ei angen er mwyn i'r TPS gael budd o'r trefniadau newydd ac, felly, byddant yn cael eu datblygu.

## Adran 9: Cwestiynau Ychwanegol o'r Ymgynghoriad

117. Gofynnodd yr Adran dri chwestiwn ychwanegol ynglŷn â chynigion yr ymgynghoriad, er mwyn casglu sylwadau cyffredinol ynghylch sut maent yn helpu cyflogwyr ac aelodau i gynllunio gyrfa ac ymddeoliad, ac a oes unrhyw faterion eraill y mae angen i'r Adran eu hystyried.

| **C15 A fydd y cynigion yn sicrhau bod y TPS yn parhau i helpu cyflogwyr i helpu aelodau'r cynllun i reoli eu gyrfaoedd a'u hymddeoliad yn effeithiol?**<br><br>Cafwyd 69 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 11 (16%) Byddan | 38 (55%) Na fyddan | 20 (29%) Ddim yn siŵr |

118. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn pryderu ynghylch y cynigion cyffredinol ar gyfer diwygio yn hytrach na'r broses o'u rhoi ar waith. Yma, ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn mai canlyniad y cynigion fyddai bod athrawon yn gweithio'n hwy, yn talu mwy ac yn cael llai.

119. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y ffaith eu bod yn gymhleth iawn ac yn cynnwys llawer o opsiynau. Nodwyd bod angen rhagor o gyngor a chanllawiau gan weinyddwr y cynllun a'r Adran, yn ogystal â chyfrifianellau ar y we ac adnoddau eraill i helpu aelodau a chyflogwyr i ddeall.

| **C16 A fydd y cynigion yn helpu aelodau'r cynllun i reoli eu cynilion pensiwn a'u cynlluniau yn effeithiol?**<br><br>Cafwyd 68 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 10 (15%) Byddan | 38 (56%) Na fyddan | 20 (29%) Ddim yn siŵr |

120. Roedd y rhesymau dros yr ymatebion negyddol neu ansicr yn debyg i'r rhai a fynegwyd o dan gwestiwn 15. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod y newidiadau yn ymwneud â lleihau costau yn hytrach na chefnogi aelodau a nododd rhai fod cynlluniau i sicrhau bod yr oedran pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oedran pensiwn y wladwriaeth yn annheg ac nad oeddent yn helpu aelodau i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

| **C17 A oes unrhyw faterion gweinyddol, cydraddoldeb neu ymarferol ychwanegol y mae angen i'r Adran eu hystyried wrth weithredu'r trefniadau newydd?**<br><br>Cafwyd 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. | | |
|---|---|---|
| 39 (62%) Oes | 8 (13%) Nac oes | 16 (25%) Ddim yn siŵr |

121. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr bethau eraill y dylid eu hystyried. Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr mai canlyniad y newidiadau cyffredinol fydd lleihau

buddion pensiwn ac y byddant yn rhoi merched a'r rhai ag anableddau dan anfantais anghymesur. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i gasglu rhagor o wybodaeth am grwpiau a ddiogelir, er enghraifft, athrawon o leiafrifoedd ethnig, er mwyn gallu asesu'r effaith arnynt yn llawn.

122. Canolbwyntiodd ymatebion eraill ar y farn y bydd angen rhagor o gyngor manwl a chymorth er mwyn gweithredu'r newidiadau yn effeithiol, a rhoi cymorth priodol i athrawon, cyflogwyr a darparwyr cyflogresi. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn agored i athrawon mewn Academïau ac ysgolion eraill y tu allan i reolaeth Awdurdodau Lleol.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 15, 16 a 17

123. Hoffai'r Adran ddiolch i'r ymatebwyr am eu sylwadau. Fel y nodir o dan yr adran gryno uchod, mae'r Adran yn cydnabod bod cryn bryder ynghylch y cynigion cyffredinol ar gyfer diwygio'r TPS a chryn wrthwynebiad iddynt. Mae'r Adran yn cydnabod y materion y mae ymatebwyr wedi'u codi o ran y pryderon a'r sylwadau hynny. Fodd bynnag, mae'r Adran yn dal i gredu bod y materion hynny wedi'u hystyried yn ystod trafodaethau a arweiniodd at gyhoeddi'r PFA, a sefydlodd strwythur y TPS diwygiedig.

124. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad hwn ar sut y bwriedir rhoi'r PFA ar waith. Ymdriniodd â'r cynigion manwl ynglŷn â sut y caiff y cynllun diwygiedig ei weithredu ynghyd â sut y bydd y trefniadau pontio, ar gyfer aelodau sy'n newid o'r cynllun presennol i'r cynllun newydd, yn gweithio. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi'r sylwadau a'r syniadau ychwanegol a ddarparwyd mewn perthynas â chwestiynau 15 i 17 a gall gadarnhau y bydd yn eu hystyried ac yn gweithredu arnynt. Yn benodol, bydd yn sicrhau'r canlynol:

- y parheir i gyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr, ac â phartïon eraill sy'n allweddol i weithredu'r cynllun newydd yn llwyddiannus, megis darparwyr cyflogresi;
- bod cyfathrebiadau yn rhoi gwybodaeth glir a syml am yr hyn y mae diwygio yn ei olygu i unigolion, gan gynnwys ystyried datblygu modelau a chyfrifianellau ar y we ymhellach er mwyn helpu unigolion i ddeall yr effaith arnynt a'r opsiynau/hyblygrwydd sydd ar gael iddynt;
- y rhoddir cyngor clir, canllawiau a chymorth i gyflogwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rolau a gwneud defnydd llawn o'r cynllun pensiwn er mwyn helpu i recriwtio a chadw athrawon;
- y rhoddir sylw priodol i'r newidiadau i'r tirlun addysgol, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod cyflogwyr newydd sy'n gysylltiedig â'r cynllun, fel ysgolion sy'n troi'n academïau, yn rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u teilwra;
- bod gweithdrefnau ar gyfer rhannu a chasglu data cywir yn gadarn ac yn addas at y diben.

125. Mae'r Adran yn cydnabod y materion cydraddoldeb a godwyd gan nifer o ymatebwyr. Mae'r Adran wedi ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ymhellach ac, ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae'n cyhoeddi atodiad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) (a gynhaliwyd yn wreiddiol

pan benderfynwyd ar y PFA). Mae'r atodiad yn rhoi manylion am y meysydd hynny lle yr ystyrir bod cynigion ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd yn codi materion eraill. Rhwng yr EIA gwreiddiol a'r atodiad, mae'r Adran o'r farn ei bod wedi rhoi sylw dyledus a phriodol i faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn.

126. Yn y pen draw, mae'r Adran o'r farn bod y cynigion ar gyfer diwygio'r TPS yn deg ac yn gymesur wrth gyflawni nod y polisi, sef sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy ac yn deg i aelodau a'r trethdalwr. Mewn perthynas â hynny, mae'r Adran yn siŵr y bydd y Cynllun yn parhau i ddarparu pensiynau da i athrawon sydd ymhlith y rhai gorau sydd ar gael.

## Y camau nesaf

127. Ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad ar bolisi, mae'r Adran yn lansio'r ymgynghoriad ail gam gan gyflwyno rheoliadau drafft sy'n ymdrin â'r cynllun diwygiedig a diwygiadau canlyniadol i'r trefniadau presennol. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 13 Medi 2013 ac yn rhedeg tan 11 Tachwedd 2013. Mae'r rheoliadau drafft yn ystyried sylwadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad cam cyntaf ac yn adlewyrchu darpariaethau a nodir yn Neddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

128. Noder, fodd bynnag, y caiff rhai rhannu o reoliadau cyffredinol y cynllun diwygiedig (er enghraifft, darpariaethau prisio a chapio costau) a rhai rheoliadau cysylltiedig (er enghraifft, ar ymddeol cyn pryd a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol) eu datblygu ar wahân ac y byddant yn destun ymgynghoriadau ar wahân. Y bwriad ar hyn o bryd yw eu cyflwyno gerbron Senedd San Steffan ym mis Medi 2014 a fydd yn eu galluogi i ddod i rym ochr yn ochr â'r prif reoliadau ym mis Ebrill 2015.

# Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Ceir isod restr o'r bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad (heb gynnwys y rhai y mae eu hymatebion yn gyfrinachol).

**Sefydliad**

Alter, Jean-Marc (Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr)

Allsop, Patrick (Ysgol St Paul's)

Blurton, Sarah

Broad, Janet

Buckley, John

Callanan, Trevor (Ysgol Radclyffe)

Carlyle, Neil

Clifford, Caron (Ysgol Uwchradd Wapping)

Coleg AB Hockerill (Mark Aldridge)

Coleg Dinas Caerfaddon (Irene Nicholls)

Connolly, John (Ysgol Uwchradd Ounsdale)

Cooper, Ian

Cunliffe, Caroline (Ysgol Uwchradd Greenbank)

Cyngor Dinas Derby

Cyngor Dinas Manceinion

Cyngor Merthyr Tudful

Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog

Cymdeithas Bwrsariaid Ysgolion Annibynnol

Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau, Ymateb y Grŵp

Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cymdeithas y Colegau

Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg

Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr

Cymdeithas yr Athrawon Cristnogol

Challis, Anna (Academi Newquay Tretherras)

Duckett, Chris (Academi Gosforth)

Dunne, Liam

Farnell, Patricia

Gladman, Tanya

Hamson, Philip (Ysgol Ramadeg Dixie)

Hannavy, Kevin (Ysgol Christ's Hospital)

Heywood

Hudson, Gillian (Ysgol St Bees)

IAPS

Jenks, Peter (St. Dominic's SFC)

Last, Stephen (Christ's Hospital)

NASUWT

NASUWT (Southampton)
NASUWT (Dinas Southampton)

NASUWT Cernyw (Peter Waldron)

NASUWT Cymdeithas Barnet (Nash Narenthira)

O'Reilly, Francis

Percival, Jake (Academi Fallibroome)

Prifysgol John Moores Lerpwl (Jayne Brown)

Prifysgol Lincoln (Natasha Halsall)

Ravenscroft, Andrew

Reynolds, Al

Reynolds, Alastair

Rist, Jonathan (Ysgol Gynradd Brunswick)

Roberts, L

Rolph, Michaela (Ysgol Gynradd Bunwell)

Scott, Chris (Ysgol Caroline Chisholm)

Smith, Graham (Ysgol Rishworth)

Smith, Justin

Surrey's Secondary Heads' Phase Council

Taylor, Steven (Coleg Hope Valley)

Turner, Andy

Turney, Helen (Ysgol Huntcliff)

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Undeb y Prifysgolion a'r Colegau

Verhoeven, Babette (Coleg 6ed Dosbarth Coleg Aquinas)

Voice the Union

Wallace, Nicholas

Ware, Heather (Ysgol Gynradd Great Ellingham)

Winter, Steven (Ysgol Felsted)

Young, Graham

Department for Education

(h) Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: reformedteacherspension.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk neu www.education.gov.uk/contactus

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein yn https://www.education.gov.uk/consultations

Reference: DFE-00197-2013